sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Diweddaru adnoddau cywain data meintiol

## Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad ym maes darlledu

Dyddiad cyhoeddi: 2 Tachwedd 2022

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Cefndir 2

3. Newidiadau cyffredinol i’r broses cywain data meintiol 4

4. Newidiadau i’r broses cywain data fesul cwestiwn 8

5. Sut dylai darlledwyr roi’r newidiadau hyn ar waith 34

# 1. Trosolwg

Ym mis Ebrill eleni fe wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn ynghylch datblygu ein holiadur cywain data meintiol sy'n mesur amrywiaeth y gweithlu darlledu. Rydyn ni wedi defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb, yn ogystal â chyfraniadau arbenigwyr mewnol ac allanol, i wneud y newidiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y datganiad isod.

Mae'r holl newidiadau i'n ffordd o gywain y data hwn wedi cael eu gwneud i'n helpu ni i gyflawni ein hamcanion i nodi lle mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu tangynrychioli ym maes darlledu o bosibl, ac i nodi'r rhwystrau a allai wynebu unigolion neu grwpiau wrth ymuno â'r diwydiant a/neu gamu ymlaen ynddo.

Bydd yr holiadur data meintiol diwygiedig yn cael ei anfon at ddarlledwyr i'w lenwi fis Ebrill 2023.

# 2. Cefndir

## Pam rydyn ni’n cywain data meintiol

2.1 Ers 2016 mae Ofcom wedi cywain ac adrodd ar ddata amrywiaeth gweithlu darlledwyr gan ddefnyddio holiadur meintiol blynyddol. Mae hyn yn caniatáu i ni fonitro cyfansoddiad staff darlledwyr.

2.2 Rydyn ni’n cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau ein data bob blwyddyn. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu darlun cynhwysfawr o gyfansoddiad gweithluoedd darlledwyr, gan nodi’r grwpiau hynny sy’n cael eu tangynrychioli ynghyd â’r hyn sy’n rhwystro’r grwpiau hynny rhag camu ymlaen o bosibl. Mae’n caniatáu i Ofcom ddal darlledwyr i gyfrif am gynnydd eu harferion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad. Rydyn ni’n disgwyl i ddarlledwyr ddefnyddio’r data i werthuso eu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiad eu hunain, ac i gychwyn sgyrsiau onest yn fewnol ac ar y cyd â darlledwyr eraill ynghylch yr hyn sy’n gweithio’n dda a lle gellid gwneud newidiadau i wella cyfleoedd cyfartal i’r holl gyflogeion.

2.3 Mae gennym bwerau i fynnu bod darlledwyr yn darparu data ar nodweddion penodol (rhyw, hil ac anabledd) o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (‘y Ddeddf’) ac i ofyn am ddata ar rai o’r nodweddion gwarchodedig eraill sydd wedi’u diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (“y Ddeddf Cydraddoldeb”) ar sail wirfoddol (crefydd a chred, tueddfryd rhywiol ac oedran). Rydyn ni hefyd yn gofyn i ddarlledwyr ddarparu data ar gefndir economaidd-gymdeithasol eu gweithluoedd yn wirfoddol.

2.4 Hefyd mae’r diwydiant darlledu yn dibynnu’n helaeth ar weithwyr llawrydd sy’n gweithio i ddarlledwyr ac i gwmnïau cynhyrchu annibynnol. Rydyn ni’n cywain data cyfyngedig ar weithwyr llawrydd sy’n gweithio i ddarlledwyr, ond dim ond ar sail wirfoddol y gallwn ofyn am hyn.[1] Mae ein Canllawiau’n annog darlledwyr i fonitro amrywiaeth eu staff llawrydd ochr yn ochr â’u cyflogeion sydd â swyddi parhaol, ac rydyn ni’n annog darlledwyr i gefnogi’r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol[2] yn ei waith yn monitro amrywiaeth y rhan llawrydd o’r diwydiant ac i ystyried sut arall gallant ddylanwadu’n gadarnhaol ar gyfansoddiad y gweithlu ehangach yn y sector.

## Adolygiad pum mlynedd a chais am fewnbwn

2.5 Yn ein hadolygiad pum mlynedd o amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal mewn darlledu yn y DU, a gyhoeddwyd yn 2021,[3] fe ddywedon ni, o ystyried y newidiadau mewn cymdeithas a’r sector dros bum mlynedd o fonitro ac adrodd ar ddata gweithlu darlledwyr, ei bod hi’n

[1] Mae hyn oherwydd bod ein dyletswyddau cyfreithiol sydd wedi’u hamlinellu yn y Ddeddf dim ond yn berthnasol i gyflogeion darlledwyr.
[2] Mae’r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol yn sefydliad sy’n hybu amrywiaeth a chynhwysiad yn niwydiant darlledu’r DU, gan ganolbwyntio’n benodol ar weithwyr llawrydd. Mae’n monitro amrywiaeth y sector llawrydd gan ddefnyddio ‘Diamond’, ei adnodd cywain data ac adrodd.
[3] Adolygiad pum mlynedd Ofcom.

adeg briodol i bwyso a mesur y data rydyn ni'n ei gywain a sut rydyn ni'n ei gywain. Fe ddywedon ni y byddai hyn yn caniatáu i ni bennu disgwyliadau diwygiedig, clir ar gyfer darlledwyr a darparu adborth mwy cyson, y gellir ei gymharu. Fe ddywedon ni y byddem yn lansio adolygiad o broses cywain data gweithlu Ofcom. Dechrau hyn oedd ymgysylltiad wedi'i dargedu â rhanddeiliaid a chyhoeddi Cais am Fewnbwn ym mis Ebrill 2022.

2.6 Roedd y Cais am Fewnbwn yn canolbwyntio ar yr adran feintiol yn ein holiadur gweithlu. Prif amcanion yr adolygiad oedd pennu'r canlynol:

- A ydyn ni'n gofyn y cwestiynau cywir i nodi tangynrychiolaeth a rhwystrau posibl i gamu ymlaen?
- A ydyn ni'n defnyddio'r iaith fwyaf priodol a chynhwysol yn ein cwestiynau?
- A oes meysydd data newydd y dylem eu cywain?
- A ydyn ni'n meincnodi ein data yn effeithiol er mwyn ei ddefnyddio i ddod i gasgliadau ystyrlon?

2.7 Wrth ddatblygu'r Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid yn unigol ac mewn sesiynau bwrdd crwn. Mae'r wybodaeth a'r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y broses hon wedi cyfrannu at y newidiadau i'r adnodd cywain data meintiol, ac at y cwestiynau yn y Cais am Fewnbwn.

2.8 Cawsom gyfanswm o 22 ymateb i'n Cais am Fewnbwn ynghylch diweddaru proses cywain data gweithlu Ofcom. Maen nhw wedi cael eu cyhoeddi'n llawn ar ein gwefan. Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys:

- 11 darlledwr teledu a radio (gan gynnwys y BBC, BT Sport, Channel 4, ITV, S4C ac STV).
- Naw o gyrff y diwydiant, cyrff cyhoeddus ac elusennau (Pwyllgor Cynghori'r Alban, yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth, Colour Blind Awareness, Directors UK, yr Elusen Ffilm a Theledu, Screen Scotland/Creative Scotland, Share My Telly Job, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar, ac Urdd Awduron Prydain Fawr).
- Un corff llywodraethol (Llywodraeth yr Alban).
- Un ymatebydd unigol.

# 3. Newidiadau cyffredinol i'r broses cywain data meintiol

## Y ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddylanwadu ar y newidiadau

3.1 Wrth ddatblygu'r cwestiynau ynghylch cywain data, fe wnaethom ymgynghori ag amrywiaeth o dimau yn Ofcom, yn enwedig y tîm Ymchwil a Gwybodaeth a rhwydweithiau cyflogeion, a dadansoddi'r ymatebion i'r Cais am Fewnbwn gan ddarlledwyr, elusennau a sefydliadau eraill, a gan gyrff y diwydiant ac unigolion.

3.2 Hefyd fe wnaethom ymgynghori'n uniongyrchol â phartïon â diddordeb, gan gynnwys eiriolwyr, elusennau a darlledwyr i sicrhau bod ein prosesau'n cyd-fynd.

3.3 Ar ben hynny, fe wnaethom gynnal ymchwil desg gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeall holiadur Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021[4] a datblygu cwestiynau mewn modd cyson.

3.4 Rydyn ni wedi penderfynu gwneud y newidiadau canlynol:

| Adran yn yr holiadur gweithlu | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|
| **Hunaniaeth Rhyw a Rhywedd** | Wedi amnewid tri chwestiwn am hunaniaeth rhyw a rhywedd. |
| **Tueddfryd Rhywiol** | Wedi ehangu'r dewisiadau ymateb. |
| **Hil ac Ethnigrwydd** | Wedi rhoi'r dewisiadau ymateb yn nhrefn yr wyddor.<br>Wedi tynnu 'BAME' o'r rhestr dewisiadau 'Arall'.<br>Wedi ehangu'r rhestr dewisiadau 'Gwyn' i gynnwys 'Roma' yn unol â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.<br>Wedi tynnu'r term 'grŵp hil' o'r holiadur. |
| **Anabledd** | Wedi ehangu'r cwestiynau i gynnwys diffiniad ymarferol o anabledd. |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol** | Wedi diwygio'r disgrifiadau galwedigaethol.<br>Wedi tynnu dau ddewis ymateb ar gyfer ysgolion gwladol (yn dethol a ddim yn dethol).<br>Wedi diwygio'r cwestiwn yn gofyn am wybodaeth ynghylch a oedd naill riant neu llall cyflogai wedi mynychu prifysgol erbyn i'r cyflogai fod yn 18 oed. |

[4] Mae gwybodaeth am sut cafodd cwestiynau'r Cyfrifiad eu datblygu ar gael ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

| Adran yn yr holiadur gweithlu | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|
| **Cyfrifoldebau gofalu** | Wedi ychwanegu cwestiwn gwirfoddol newydd yn gofyn am wybodaeth am gyfrifoldebau gofalu. |
| **Crefydd** | Dim newid |
| **Oedran** | Dim newid |
| **Data trawstoriadol** | Wedi ychwanegu cwestiynau yn gofyn am wybodaeth am bedwar pwynt data trawstoriadol:<br>Hil ac ethnigrwydd X cefndir economaidd-gymdeithasol<br>Hil ac ethnigrwydd X anabledd<br>Hil ac ethnigrwydd X rhyw<br>Anabledd X cefndir economaidd-gymdeithasol |
| **Y gwledydd a'r rhanbarthau** | Wedi ychwanegu cais gwirfoddol i gyflwyno data rhyw, hil ac ethnigrwydd, cefndir economaidd-gymdeithasol ac anabledd fesul gwlad a rhanbarth. |
| **Rheoli** | Wedi rhannu 'rheolwr iau/canol' yn ddau gategori ar wahân – 'rheolwr iau' a 'rheolwr canol'. |
| **Grwpiau rolau swyddi** | Wedi ailenwi'r categorïau i roi dealltwriaeth gliriach o ystyr pob grŵp. |

## Egwyddorion cyffredinol a newidiadau sy'n effeithio ar bob cwestiwn

Wrth benderfynu ar y newidiadau i'r holiadur, roedd pedair prif egwyddor yn ein harwain – cysondeb, meincnodi, cymesuredd a chynhwysiad. Isod mae esboniad o'r egwyddorion hyn a rhywfaint o'r rhesymeg allweddol sy'n berthnasol i'n holl newidiadau.

Mae'r holl newidiadau wedi cael eu gwneud i'n helpu ni i gyflawni ein hamcanion i nodi lle mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu tangynrychioli ym maes darlledu o bosibl, ac i nodi'r rhwystrau a allai wynebu unigolion neu grwpiau wrth ymuno â'r diwydiant a/neu gamu ymlaen ynddo.

Mae'r egwyddorion a'r penderfyniadau hyn yn berthnasol i'r holl newidiadau isod. Os oes rhesymeg ychwanegol neu benodol yn berthnasol i gwestiwn, rydyn ni'n esbonio hynny yn yr adran 'Newidiadau i'r broses cywain data fesul cwestiwn' isod.

### Cysondeb

3.5 Nid ydyn ni wedi gwneud newidiadau sylweddol i gwestiynau oni bai ein bod yn credu y byddant yn gwella, yn sylweddol, ein gallu i gael rhagor o dryloywder ynghylch pwy sy'n gweithio ym maes darlledu. Fel arall rydyn ni wedi cadw'r cwestiynau'n gyson â'r arolygon

meintiol blaenorol. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n ein galluogi i barhau i gadw golwg ar gynnydd darlledwyr dros amser.

3.6 Nid oes newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n gofyn am ddata sy'n cael ei ddadansoddi yn ôl cyflogeion newydd, cyflogeion sy'n gadael, hyfforddiant a dyrchafiadau, a rôl rheoli/statws a math o swydd ar gyfer pob cwestiwn.

3.7 Nid yw'r categorïau cywain data gorfodol wedi newid. Bydd yr holl geisiadau am ddata newydd yn cael eu gwneud ar sail wirfoddol yn unol â chyfyngiadau ein pwerau.

## Meincnodi

3.8 Rôl Ofcom yw monitro'r diwydiant darlledu yn ei gyfanrwydd a sicrhau bod darlledwyr yn diwallu amodau eu trwydded. I gyflawni ein hamcanion, rhaid inni ddeall a yw gweithluoedd darlledwyr yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth gweithio'r DU yn fwy cyffredinol.

3.9 Yn y rhan fwyaf o achosion, rydyn ni wedi penderfynu cysoni ein cwestiynau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Y rheswm am hyn yw, pan fydd y Swyddfa'n gofyn cwestiynau ar lefel y DU mewn ffordd benodol, mae'n ddefnyddiol inni ddefnyddio'r un geiriad er mwyn cael data y gellir ei gymharu yn erbyn y 'meincnodau' hyn ar gyfer y DU. Rydyn ni'n cydnabod bod hyn weithiau'n golygu bod yn rhaid inni aberthu cywain data manwl ar rai nodweddion i gyd-fynd â'r meincnodau hyn.

3.10 Lle bo'n fanteisiol ac yn bosibl gwneud hyn, heb gamystumio'r data neu gyfyngu ar ein gallu i feincnodi, rydyn ni wedi addasu cwestiynau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gallu cywain data sy'n rhoi rhagor o ddealltwriaeth i ni. Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i bron bob cwestiwn isod.

3.11 Lle rydyn ni wedi penderfynu ehangu'r rhestr o ddewisiadau ymateb sydd ar gael i gyflogwyr ddewis o'u plith, er enghraifft yn y cwestiynau tueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, rydyn ni wedi llunio'r rhestr dewisiadau ar sail ymchwil a drwy ymgynghori â darlledwyr. Byddwn yn diweddaru'r rhestrau hyn yn unol â'r ymatebion i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy eu blwch "ysgrifennu" yng Nghyfrifiad 2021, pan gyhoeddir y canlyniadau.

3.12 Rydyn ni'n defnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i feincnodi lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys data'r Cyfrifiad a data gweithlu llafur, heblaw am gefndir economaidd-gymdeithasol lle rydyn ni'n meincnodi yn erbyn y data a ddarperir gan y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, oherwydd y Comisiwn sy'n darparu'r data mwyaf cynhwysfawr ar y pwnc hwn. Os yw data'r Swyddfa yn ymwneud â Chymru a Lloegr yn unig, byddwn yn meincnodi yn erbyn data Cyfrifiad o Gofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon; os nad oes data Cyfrifiad yn cyfateb i'n cwestiynau byddwn yn gofyn am ddata gan yr asiantaethau ystadegol hynny yn uniongyrchol. Byddwn yn defnyddio'r Swyddfa fel meincnod ar gyfer data yn ôl rhanbarthau yn Lloegr.

## Cynhwysiad

3.13 Wrth ddatblygu'r holiadur, ein nod yw gwella cynhwysiad yr iaith a'r cwestiynau. Rydyn ni'n gobeithio y bydd gwneud hynny'n cynyddu'r cyfraddau datgelu data ac yn gwella ein dealltwriaeth o gynrychiolaeth grwpiau penodol yn y sector darlledu.

3.14 Er na allwn ddylanwadu'n uniongyrchol ar y ffordd mae darlledwyr yn gofyn am y data hwn gan eu cyflogeion, rydyn ni'n gobeithio y byddant yn defnyddio ein cwestiynau fel sbardun ar gyfer gwella cynhwysiad eu harferion cywain data eu hunain. Rydyn ni wedi darparu ambell awgrym ar gyfer sut gallai darlledwyr wneud hyn ar ddiwedd y bennod hon.

3.15 Roedd llawer o'r ymatebwyr i'n Cais am Fewnbwn wedi nodi y dylem osgoi'r term 'arall' i gofnodi grwpiau lleiafrifol nad yw eu nodweddion wedi'u rhestru. Rydyn ni wedi penderfynu newid ein hiaith i amrywiadau ar yr ymadrodd 'nodwedd heb ei rhestru'. Rydyn ni'n credu bod yr ymadrodd hwn yn cyfleu'n well nad yw Ofcom wedi rhestru'r nodwedd, yn hytrach nag 'aralleiddio' cyflogeion ('*othering*').

## Cymesuredd

3.16 Rhaid i gamau Ofcom wrth fonitro amrywiaeth y sector darlledu fod yn gymesur. Rhaid inni allu cyfiawnhau'r baich rheoleiddiol y mae ein ceisiadau am ddata yn ei roi ar ddarlledwyr drwy ddangos sut bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio. Mae'r holl geisiadau canlynol am ddata yn ein helpu ni i gyflawni ein hamcanion cyffredinol, sef tynnu sylw at dangynrychioli a'r hyn sy'n rhwystro grwpiau lleiafrifol rhag camu ymlaen. Ym mhob adran, rydyn ni wedi amlinellu sut bydd data penodol yn cael ei ddefnyddio. Isod rydyn ni'n amlinellu pwyntiau mwy cyffredinol ynghylch defnyddio'r data sy'n cael ei gywain.

# Sut bydd Ofcom yn defnyddio'r data hwn

3.17 Yn unol â'n pwerau o dan y Ddeddf, bydd hi'n orfodol i ddarlledwyr adrodd data gweithlu am ryw,[5] hil ac ethnigrwydd, ac anabledd.

3.18 Os oes gan lai na 10 cyflogai nodwedd benodol, nid ydyn ni'n adrodd arni er mwyn diogelu data personol. Yn yr achosion hynny, mae'n bosibl y byddwn yn dewis cyfuno'r cyflogeion hynny ar draws darlledwyr i gael darlun o'u cynrychiolaeth ar draws y diwydiant cyfan. Mae hyn yn debygol iawn o fod yn wir ar gyfer rhai o'r rhestrau wedi'u hehangu o hunaniaethau a nodweddion, fel tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd. Rydyn ni'n credu ei bod hi'n werthfawr cadw golwg ar y niferoedd hynny ac adrodd ar gynrychiolaeth, dim ots pa mor fach yw'r nifer, i'r graddau mae hynny'n bosibl.

[5] Bydd cywain data ar gyflogeion sy'n rhyngrywiol yn wirfoddol.

# 4. Newidiadau i'r broses cywain data fesul cwestiwn

## Hunaniaeth rhyw a rhywedd

> Yn ein Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ofyn a ddylem ddechrau cywain data hunaniaeth rhywedd yn ogystal â rhyw fel nodwedd warchodedig. Fe wnaethom ofyn am awgrymiadau ar gyfer y ffordd orau o gywain y wybodaeth hon, gan nodi ein bod yn awyddus i gysoni â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ganiatáu i ni gymharu'r data â chanlyniadau Cyfrifiad 2021.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.1 Dywedodd 10 ymatebydd yn benodol y dylid newid yr adran hunaniaeth rhyw a rhywedd yn yr holiadur gweithlu. Roedd y rhan fwyaf a oedd o blaid newidiadau wedi awgrymu y dylem ddefnyddio term mwy cynhwysol nag 'Arall' i ddisgrifio hunaniaethau rhywedd nad ydynt wedi'u rhestru yn y dewisiadau. Yn yr un modd, awgrymodd tri ymatebydd[6] ein bod yn ehangu'r rhestr dewisiadau sydd ar gael i'r rhai sy'n llenwi'r holiadur gweithlu ymhellach. Roedd yr awgrymiadau cyffredin yn cynnwys 'traws', 'anneuaidd', 'dim rhywedd' a 'Cwiar'.

4.2 Roedd pum ymatebydd[7] wedi argymell y dylid cael dau gwestiwn yn yr adran rhyw a rhywedd yn yr holiadur, yr un fath â Chyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

4.3 Awgrymodd dau ymatebydd[8] nad oedd angen newid y ffordd rydyn ni'n gofyn am wybodaeth am ryw a rhywedd yn yr holiadur. Awgrymodd un ymatebydd unigol fod y ffordd rydyn ni'n gofyn am y wybodaeth hon ar hyn o bryd eisoes yn adlewyrchu'r hunaniaethau rhyw a rhywedd sy'n bodoli mewn cymdeithas.

### Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.4 Mae'n bwysig bod gennym well dealltwriaeth o'r gynrychiolaeth o bobl drawsryweddol a phobl â hunaniaeth rhywedd lleiafrifol, a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu, felly rydyn ni wedi ehangu'r adran hon i adlewyrchu hynny.

4.5 Roedd yr ymatebion i'r Cais am Fewnbwn yn ei gwneud hi'n glir bod ein cwestiynau cyfredol i ddarlledwyr yn y maes hwn ar ei hôl hi o gymharu â'r darlledwyr eu hunain. O blith y naw darlledwr a ymatebodd i'r Cais am Fewnbwn gyda gwybodaeth am eu dulliau cywain data eu hunain, mae chwech eisoes yn cywain rhywfaint o wybodaeth am

---

[6] BT, S4C ac STV
[7] Pwyllgor Cynghori'r Alban, Channel 4, Directors UK, ITV ac Urdd Awduron Prydain Fawr
[8] Share My Telly Job ac aelod o'r cyhoedd.

hunaniaeth rhywedd. Mae hyn yn dangos i ni na ddylai'r cais ychwanegol fod yn ormod o faich i ddarlledwyr.

4.6 Bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i ni gymharu data â meincnodau cynrychioladol cenedlaethol.

4.7 Rydyn ni'n deall na fydd llawer o gyflogeion traws neu anneuaidd 'allan' yn y gwaith neu ddim yn teimlo'n hyderus yn adrodd eu data personol i'w cyflogwr o bosibl,[9] felly er na fydd y data sy'n cael ei gywain yn darparu darlun cyflawn, rydyn ni'n gobeithio dros amser y bydd ymddiriedolaeth a chyfraddau datgelu yn tyfu.

4.8 Rydyn ni'n defnyddio data rhyw i helpu darlledwyr i ddeall y prif faterion sy'n wynebu merched a dynion. Er enghraifft gall y data gyfrannu at y gwaith o gadw golwg ar nifer y merched sy'n gadael y diwydiant pan fyddant yn cael plant neu'n heneiddio.

| **Y cwestiwn ar hyn o bryd** | **Cwestiwn newydd** |
|---|---|
| Gorfodol<br><br>Beth yw'r dadansoddiad o'ch gweithlu yn ôl rhyw?<br>○ Gwrywaidd<br>○ Benywaidd<br>○ Arall (ee rhyngrywiol, anneuaidd) [mae hwn yn ddewis gwirfoddol]<br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud | Cwestiwn 1 – Gorfodol:<br><br>Beth yw'r dadansoddiad o'ch cyflogeion yn ôl rhyw?<br>○ Gwrywaidd<br>○ Benywaidd<br>○ Rhyngrywiol [mae hwn yn ddewis gwirfoddol]<br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud |
| Amh | Cwestiwn 2 – Gwirfoddol:<br><br>Sawl un o'ch cyflogeion sy'n uniaethu â rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a neilltuwyd iddynt adeg eu geni?<br>○ [rhowch nifer]<br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain<br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i ddarparu data i Ofcom |
| Amh | Cwestiwn 3 – Gwirfoddol:<br><br>Yn y grŵp hwn, sawl cyflogai oedd un uniaethu â'r hunaniaethau rhywedd canlynol?<br>○ Dyn / Dyn traws<br>○ Merch / Merch draws<br>○ Anneuaidd<br>○ Cwiar |

[9] Adroddiad LGBT in Britain – work report Stonewall, tudalen 10

| | |
|---|---|
| | ○ Hunaniaeth rhywedd heb ei rhestru<br><br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain<br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i ddarparu data i Ofcom |

## Tueddfryd rhywiol

Yn ein Cais am Fewnbwn fe wnaethom esbonio bod ein dull cyfredol o gywain data yn y maes hwn yn seiliedig ar ddiffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb, ond gofynnon am fewnbwn ynghylch a oedd hi'n bryd ehangu'r rhestr o dueddfryd rhywiol i ehangu ein dealltwriaeth o'r gynrychiolaeth o'r gymuned LGBTQ+ ym maes darlledu.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.9 Awgrymodd wyth ymatebydd y dylid newid y ffordd rydyn ni'n gofyn am wybodaeth am dueddfryd rhywiol yn yr holiadur gweithlu. Roedd pedwar ymatebydd[10] wedi argymell ein bod yn ehangu'r rhestr dewisiadau sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu gwybodaeth am dueddfryd rhywiol yn yr holiadur. Roedd y rhain yn cynnwys ychwanegu'r dewisiadau 'Anrhywiol', 'Cwiar' a 'Panrywiol' at yr adran tueddfryd rhywiol.

4.10 Awgrymodd tri ymatebydd[11] ein bod yn ystyried tynnu rhywedd o'r disgrifiadau o dueddfryd rhywiol. Byddai hyn yn sicrhau bod pobl hoyw nad ydynt yn ystyried eu hunain yn ddyn na'n ddynes yn gallu dewis.

4.11 Roedd rhai ymatebwyr wedi awgrymu ein bod yn ailedrych ar yr iaith rydyn ni'n ei defnyddio yn yr holiadur gweithlu ar hyn o bryd. Er enghraifft, roedd Channel 4 yn argymell ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio 'strêt' fel term i ddisgrifio heterorywioldeb oherwydd ei gysylltiadau anghynhwysol.

4.12 Dywedodd pedwar ymatebydd[12] nad oeddent yn teimlo bod angen newid yr adran tueddfryd rhywiol yn yr holiadur gweithlu.

### Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.13 Yn y gorffennol, rydyn ni wedi cywain gwybodaeth am ddynion hoyw a merched hoyw a lesbiaid ar wahân oherwydd ein bod yn gwybod bod merched hoyw a lesbiaid yn cael eu tangynrychioli i raddau mwy na dynion hoyw ym maes darlledu.[13] Mae tystiolaeth

[10] Pwyllgor Cynghori'r Alban, BT Sport, S4C ac Urdd Awduron Prydain Fawr
[11] Channel 4 a dau ymatebydd cyfrinachol
[12] Y BBC, ITV, Share My Telly Job ac STV
[13] Yn 2018/19, roedd 2% o gyflogeion wedi dweud eu bod yn ddynion hoyw, o'i gymharu â'r 1% a ddywedodd eu bod yn ferched hoyw/lesbiaid. Edrychwch ar ddogfen Ofcom, 2019. Amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal yn y diwydiant teledu: adroddiad monitro ar y diwydiant darlledu a leolir yn y DU, t.25. Mae hyn o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2019 o 2.9% o ddynion hoyw a 2.5% o ferched hoyw neu lesbiaid, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

anecdotaidd fod merched hoyw a lesbiaid a dynion hoyw yn wynebu rhwystrau gwahanol i gamu ymlaen ym maes darlledu o bosibl. Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig gallu dilyn trywydd y broblem hon yn gywir. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cywain data ar bobl hoyw nad ydynt yn ystyried eu hunain yn ddyn na'n ddynes, felly rydyn ni wedi ychwanegu trydydd dewis i helpu i gofnodi'r grŵp hwn.

4.14 Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod gan y term 'strêt' rai cysylltiadau negyddol, ond yn ôl yr hyn a ddeallwn, mae'r term yn dal yn gallu bod yn ddefnyddiol i rai pobl nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn dewis y term 'heterorywiol', er enghraifft rhai pobl draws ac anneuaidd. Felly rydyn ni wedi penderfynu cadw'r ddau derm yn y dewisiadau.

| **Y cwestiwn ar hyn o bryd** | **Cwestiwn newydd** |
|---|---|
| Gwirfoddol<br><br>Gweithlu cyflogai yn ôl tueddfryd rhywiol:<br><br>○ Heterorywiol/Strêt<br>○ Dynion hoyw<br>○ Menywod hoyw/Lesbiad<br>○ Deurywiol<br>○ Tueddfryd rhywiol arall<br><br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain<br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i ddarparu data i Ofcom | Gwirfoddol<br><br>Sawl un o'ch cyflogeion sydd yn:<br><br>○ Heterorywiol / strêt<br>○ Dyn hoyw<br>○ Merch hoyw / Lesbiad<br>○ Hoyw – anneuaidd<br>○ Deurywiol<br>○ Anrhywiol<br>○ Panrywiol<br>○ Cwiar<br>○ Tueddfryd rhywiol heb ei restru<br><br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain<br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i ddarparu data i Ofcom |

## Hil ac ethnigrwydd

Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ofyn am fewnbwn ynghylch a ddylem ehangu'r rhestr ethnigrwydd i wella ein dealltwriaeth o'r gwahaniaethau bach yn y data, ynteu a ddylem gadw at gwestiwn y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn union i sicrhau ein bod yn gallu meincnodi'r data yn effeithiol yn erbyn data poblogaeth y DU.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.15 Awgrymodd pedwar ymatebydd[14] ein bod yn tynnu'r term B.A.M.E. o adran D yr holiadur gweithlu, gan dynnu sylw at y ffaith fod nifer o ddarlledwyr wedi ymdrechu'n benodol i roi'r gorau i'w ddefnyddio yn raddol.

4.16 Hefyd roedd dau ymatebydd[15] wedi argymell ein bod yn cydnabod y berthynas rhwng cenedligrwydd, crefydd, a hil ac ethnigrwydd yn yr holiadur. Yn benodol, tynnodd S4C sylw at y ffaith fod y dewis 'Gwyn' yn yr adran hil ac ethnigrwydd wedi'i restru yn ôl cenedligrwydd, ond nad yw hynny'n wir ar gyfer rhai grwpiau hil eraill.

4.17 Yn ogystal â hynny, cafwyd nifer o argymhellion i ehangu'r rhestr dewisiadau sydd ar gael yn yr holiadur gweithlu ar hyn o bryd. Awgrymwyd nifer o weithiau ein bod yn symud y dewis 'O'r Dwyrain Canol, yn cynnwys tarddiad Arabaidd' o'r dewis 'Arall' ac yn ei rannu i fod yn fwy penodol. Yn yr un modd, awgrymwyd ein bod yn cynnwys 'De-ddwyrain Asia' fel dewis.

### Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.18 Yr hyn sy'n allweddol ar gyfer cyflawni ein hamcanion yw gallu cymharu data â chyfartaleddau cenedlaethol a rhanbarthol. Fodd bynnag, i gydnabod gwerth cywain data manylach lle bo'n bosibl, mae'r rhestr dewisiadau sydd ar gael i gyflogeion o gefndiroedd Asiaidd yn ehangach na'r Cyfrifiad ac yn cyd-fynd â'r ffordd rydyn ni wedi cywain y data yn y gorffennol. Nid yw hyn yn cyfyngu ar ein gallu i gymharu â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol oherwydd gallwn gyfuno'r categorïau ychwanegol yn 'unrhyw gefndir Asiaidd arall' i gyd-fynd â'r data cynrychioladol cenedlaethol. Yn yr un modd, rydyn ni wedi gwahanu Arabaidd a 'cefndir ethnig arall' oherwydd nid yw hynny'n cyfyngu ar ein gallu i gymharu â chanlyniadau'r Cyfrifiad drwy gyfuno'r data rydyn ni'n ei gywain.

4.19 Fe wnaethom ystyried yr ychwanegiadau eraill a awgrymwyd, gan gynnwys ychwanegu Iddewig fel grŵp ethnig a chefndiroedd Affricanaidd eraill at y dewisiadau, ond byddai hyn wedi effeithio ar ein gallu i feincnodi oherwydd gallai gamystumio'r categorïau y mae ymatebwyr yn cael eu rhoi ynddynt wrth gymharu â data'r Cyfrifiad. Mae cymhlethdod a gwahaniaethau bach hil ac ethnigrwydd (a chrefydd) yn golygu y gallai nifer o ddewisiadau fod yn berthnasol i lawer o bobl. Os byddwn yn ehangu'r rhestr ethnigrwydd ar gyfer

[14] BT Sport, Channel 4, Directors UK a'r Elusen Ffilm a Theledu
[15] Yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth ac S4C

grwpiau penodol, gall hyn olygu bod ymatebwyr yn dewis is-gategori gwahanol i'r hyn byddent yn ei ddewis yn y Cyfrifiad, gan ei gwneud hi'n anodd cymharu'r data.

4.20 Rydyn ni wedi penderfynu rhestru'r categorïau ymbarél yn nhrefn yr wyddor i adlewyrchu arfer llawer o ddarlledwyr.

4.21 Roedd 'BAME' arfer bod yn gategori i ddarlledwyr llai nad ydynt yn cywain data ethnigrwydd manwl er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn gallu adrodd eu data. Rydyn ni'n cydnabod bod yr iaith mewn cysylltiad â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiad, a'n disgwyliadau ar gyfer sefydliadau, wedi datblygu ers rhestru'r categori "BAME" yn 2017. Felly, rydyn ni wedi tynnu 'BAME' ac yn disgwyl i ddarlledwyr allu darparu data llinell uchaf o leiaf ar nifer y cyflogeion yn eu sefydliad o bob un o'r is-gategorïau sydd mewn testun trwm yn y tabl isod.

4.22 Rydyn ni hefyd wedi tynnu'r term 'grŵp hil' o'n holiadur. Cafodd hwn ei gynnwys yn wreiddiol i gyd-fynd â'r geiriad sy'n rhoi i ni ein hawliau o dan y Ddeddf.[16] Rydyn ni'n cydnabod bod yr iaith hon yn teimlo'n hen ffasiwn ac nad yw'n cael ei defnyddio'n gyffredin erbyn hyn. Felly rydyn ni wedi newid teitl yr adran hon i 'cefndir hil ac ethnigrwydd'.

| **Y cwestiwn ar hyn o bryd** | **Cwestiwn newydd** |
|---|---|
| Gorfodol<br><br>Gweithlu cyflogai yn ôl grŵp hil:<br><br>1 Gwyn:<br><br>a Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig<br><br>b Gwyddelig<br><br>c Canol a Dwyrain Ewrop<br><br>d Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig<br><br>e Cefndir gwyn arall<br><br>2 Dwyrain Asiaidd / Dwyrain Asiaidd Prydeinig:<br><br>f Tsieineaidd<br><br>g Unrhyw gefndir Dwyrain Asiaidd arall<br><br>3 De Asiaidd / De Asiaidd Prydeinig:<br><br>h Indiaidd | Gorfodol<br><br>Sawl un o'ch cyflogeion sydd yn:<br><br>**Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig**<br>o Affricanaidd<br>o Caribïaidd<br>o Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall<br><br>**Dwyrain Asiaidd/Dwyrain Asiaidd Prydeinig**<br>o Tsieineaidd<br>o Unrhyw gefndir Dwyrain Asiaidd arall<br><br>**Grwpiau ethnig lluosog/cymysg**<br>o Gwyn a Du Caribïaidd<br>o Gwyn a Du Affricanaidd<br>o Gwyn ac Asiaidd<br>o Unrhyw gefndir Cymysg/aml-ethnig arall<br><br>**Dwyrain Canol/Arabaidd**<br>o Arabaidd<br>o Unrhyw gefndir Dwyrain Canol arall |

[16] Adran 27(4)(b) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

| | |
|---|---|
| i Pacistanaidd<br><br>j Bangladeshaidd<br><br>k Cefndir De Asiaidd arall<br><br><br>4 Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig:<br><br>l Affricanaidd<br><br>m Caribïaidd<br><br>n Cefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall<br><br><br>5 Cymysg:<br><br>o Gwyn a Du Caribïaidd<br><br>p Gwyn a Du Affricanaidd<br><br>q Gwyn ac Asiaidd<br><br>r Cefndir cymysg/aml-hil arall<br><br><br>6 Arall:<br><br>s O’r Dwyrain Canol, yn cynnwys tarddiad Arabaidd<br><br>t Grŵp ethnig arall<br><br>u Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME)<br><br><br>v Well gan y cyflogai beidio â datgelu<br><br>w Data heb ei gywain | **De Asiaidd/De Asiaidd Prydeinig**<br><br>○ Indiaidd<br>○ Pacistanaidd<br>○ Bangladeshaidd<br>○ Unrhyw gefndir De Asiaidd arall<br><br>**Gwyn**<br><br>○ Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig<br>○ Gwyddelig<br>○ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig<br>○ Roma<br>○ Unrhyw gefndir Gwyn arall<br><br>○ Cefndir ethnigrwydd heb ei restru<br>○ Well gan y cyflogai beidio â datgelu<br>○ Data heb ei gywain |

# Anabledd

> Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ofyn a ddylem newid i ddull 'model cymdeithasol'[17] o gywain data anabledd ac a ddylem gynnwys cwestiwn sy'n cyd-fynd â safon wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer cwestiynau am namau.

## Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.23 Roedd 10 ymatebydd[18] yn argymell y dylid newid y ffordd rydyn ni'n gofyn am wybodaeth am anabledd. Roedd llawer o'r rhain yn awgrymu ein bod yn mabwysiadu agwedd fwy cynhwysol at anabledd drwy ehangu'r rhestr dewisiadau sydd ar gael. Er enghraifft, cynnwys rhagor o ddewisiadau ar gyfer anableddau a namau niwrowahanol, a rhai sy'n gysylltiedig â'r clyw a'r golwg.

4.24 Dywedodd tri ymatebydd[19] i'n Cais am Fewnbwn nad oeddent yn credu bod angen newid yr adran anabledd yn yr holiadur gweithlu. Awgrymodd Directors UK fod y ffordd o ofyn y cwestiwn hwn yn llai arwyddocaol na'r camau gweithredu y dylai darlledwyr fod yn eu cymryd i wella'r gynrychiolaeth o bobl anabl.

## Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.25 Yn ystod ein trafodaethau ag ymgyrchwr ac elusennau anabledd, roedd llawer o gyfranogwyr yn dadlau dros newid o fodel meddygol o anabledd i fodel cymdeithasol. Byddai hyn yn awgrymu symud i gwestiynau am sut mae cyflwr neu nam cyflogeion yn effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, yn hytrach na rhai sy'n canolbwyntio ar y salwch penodol, y cyflyrau meddygol neu'r namau sydd gan bobl.

4.26 Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r diffiniad yn y Ddeddf Cydraddoldeb a chwestiynau Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol am anabledd, sy'n holi ynghylch cyflyrau hirdymor sy'n effeithio'n sylweddol ar allu person i wneud gweithgareddau dydd i ddydd.

4.27 Mae cwestiwn 1 yn gysylltiedig â chwestiwn Cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu ei bod hefyd yn ddefnyddiol cadw cwestiwn i nodi tangynrychiolaeth mewn cysylltiad â mathau penodol o gyflyrau. Gallai hyn helpu i nodi rhwystrau penodol sy'n wynebu cyflogeion â'r cyflyrau hynny. Rydyn ni'n deall y gall pobl â'r un cyflwr meddygol (er enghraifft) wynebu rhwystrau cwbl wahanol, ond yn credu ei bod hi'n dal yn werthfawr nodi patrymau eang o anfantais. Er enghraifft, os gwelwn fod pobl â nam ar y clyw yn gadael y diwydiant ar gyfradd anghymesur, gallem ddod i gasgliad nad yw darlledwyr yn gwneud digon i addasu eu gweithloedd i ddarparu ar gyfer y grŵp hwn.

[17] Diffiniad yr elusen Scope o'r model cymdeithasol o anabledd.
[18] y BBC, BT Sport, Channel 4, Colour Blind Awareness, yr Elusen Ffilm a Theledu, ITV, S4C, Share My Telly Job, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall ac Urdd Awduron Prydain Fawr
[19] Pwyllgor Cynghori'r Alban, Directors UK ac STV

4.28 Mae cwestiwn 2 bellach yn cyd-fynd â chwestiwn wedi'i gysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth am namau,[20] a hynny at ddibenion meincnodi ac i ddarparu gwybodaeth fanylach am gyflyrau penodol (ee nam ar y clyw) lle bo hynny ar gael. Bydd darlledwyr yn dal yn gallu cyflwyno data mewn cysylltiad ag is-grwpiau ehangach (ee anabledd synhwyraidd) os mai dyna'r unig ddata maen nhw wedi'i gywain.

| **Y cwestiwn ar hyn o bryd** | **Cwestiwn newydd** |
|---|---|
| Amh | Cwestiwn 1 – Gorfodol<br><br>Sawl cyflogai sydd ag anabledd, wedi'i ddiffinio fel salwch, cyflwr neu nam corfforol neu feddyliol hirdymor sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor (12 mis neu fwy) ar allu'r person hwnnw i wneud gweithgareddau dydd i ddydd arferol?<br><br>○ Dim salwch, cyflwr na nam<br>○ Salwch, cyflwr neu nam<br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain |
| Sawl un o'ch cyflogeion sydd â'r canlynol<br><br>○ Dim anabledd<br>○ Anabledd synhwyraidd (e.e. nam ar y golwg/clyw)<br>○ Anabledd corfforol / Cyhyrysgerbydol (gan gynnwys cydsymud, deheurwydd, symudedd, defnyddiwr cadair olwyn)<br>○ Salwch meddwl (gan gynnwys iselder difrifol, deubegynedd)<br>○ Anableddau dysgu / gwybyddol (gan gynnwys dyslecsia, Syndrom Down, awtistiaeth)<br>○ Anabledd / cyflwr lluosog, hirdymor neu arall (Mae hyn yn cynnwys cyflyrau fel diabetes, epilepsi, arthritis, asthma, nam ar y lleferydd, anffurfiadau ar yr wyneb)<br>○ anabledd<br><br>○ Well gan y cyflogai beidio â datgelu | Cwestiwn 2 – Gorfodol<br><br>A yw'r salwch, y cyflyrau neu'r namau hyn yn effeithio ar gyflogeion yn y meysydd canlynol? Caiff ymatebwyr ddewis mwy nag un fesul cyflogai.<br><br>**Synhwyraidd**<br><br>○ Golwg (er enghraifft dall neu rannol ddall)<br>○ Clyw (er enghraifft byddar neu rannol fyddar)<br><br>**Corfforol**<br><br>○ Symudedd (er enghraifft cerdded pellter byr neu ddringo grisiau)<br>○ Deheurwydd (er enghraifft codi a chario gwrthrychau, defnyddio bysellfwrdd)<br>○ Stamina neu anadlu neu orflinder<br><br>**Gwybyddol a chymdeithasol neu ymddygiadol**<br><br>○ Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio<br>○ Cof<br>○ Cymdeithasol neu ymddygiadol (er enghraifft yn gysylltiedig ag anhwylder |

[20] Mae gwybodaeth am y cwestiwn wedi'i gysoni am namau ar gael ar wefan Llywodraeth y DU

| | |
|---|---|
| | sbectrwm awtistiaeth sy'n cynnwys syndrom Asperger, neu ADHD).<br><br>○ Iechyd meddwl<br><br>○ Arall, heb ei restru (gallai hyn gynnwys cyflyrau fel diabetes, epilepsi, nam ar y lleferydd, anffurfiad ar yr wyneb)<br><br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain |

## Cefndir economaidd-gymdeithasol

> Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ofyn am sylwadau ynghylch a ydyn ni'n gofyn y cwestiynau gorau ar gyfer asesu cefndir economaidd-gymdeithasol. Hefyd fe wnaethom esbonio mai ein dull hyd yma yw canolbwyntio ar gefndir pobl yn hytrach na'u statws economaidd ar hyn o bryd. Roedden ni'n croesawu sylwadau ynghylch y dull hwn.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.29 Dywedodd chwe ymatebydd[21] y dylid newid yr adran cefndir economaidd-gymdeithasol yn yr holiadur. Awgrymodd Pwyllgor Cynghori'r Alban fod ein dull cyfredol yn eithrio agweddau allweddol sy'n gysylltiedig â chefndir economaidd-gymdeithasol: ansawdd addysg, magwraeth mewn cymuned drefol o'i gymharu â chymuned wledig, a chefndir economaidd-gymdeithasol grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Roedd hefyd yn argymell y dylai Ofcom gywain gwybodaeth am nifer y bobl sy'n dibynnu ar incwm cyflogai.

4.30 Dywedodd pedwar ymatebydd[22] nad oeddent yn teimlo bod angen newid ein ffordd o ofyn am wybodaeth am gefndir economaidd-gymdeithasol gan ddarlledwyr. Tynnodd Directors UK sylw at y ffaith fod ein dull cyfredol yn cyd-fynd ag argymhellion Llywodraeth y DU ar gyfer mesur cefndir economaidd-gymdeithasol gweithluoedd. Yn yr un modd, nid oedd Urdd Awduron Prydain Fawr yn argymell unrhyw newidiadau, gan fod ein dull cyfredol yn cyd-fynd â Phecyn Cymorth Symudedd Cymdeithasol y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. Er bod STV wedi awgrymu peidio â newid ein ffordd o ofyn am wybodaeth am gefndir economaidd-gymdeithasol, nododd y byddai'n fuddiol petai Ofcom yn darparu rhagor o eglurder ynghylch y cymharydd poblogaeth ar gyfer pob cwestiwn a sut gellir cysylltu'r cwestiynau am gefndir economaidd-gymdeithasol â symudedd cymdeithasol ymatebwyr.

4.31 Dywedodd y BBC efallai y bydd cywain gwybodaeth ar gyfer pob un o'r pedwar cwestiwn sy'n cael eu defnyddio yn ein dull cyfredol yn rhy lafurus i ddarlledwyr. Yn hytrach,

[21] Gan gynnwys Pwyllgor Cynghori'r Alban, y BBC, yr Elusen Ffilm a Theledu a Share My Telly Job
[22] Directors UK, ITV, STV ac Urdd Awduron Prydain Fawr)

awgrymodd y dylid cywain gwybodaeth ar gyfer pob cwestiwn heblaw am gwestiwn 3 (mae'r cwestiynau wedi'u rhestru isod).

4.32 Roedd Channel 4 yn argymell ein bod yn cadw ein dull cyfredol ar gyfer gofyn cwestiynau, ond yn adolygu'r categorïau proffesiynau a ddefnyddir yn y cwestiwn am alwedigaeth prif enillydd y cartref. Awgrymodd yr Elusen Ffilm a Theledu ein bod yn rhannu'r categori "Tramor" yn "Gwladol-tramor" a "Preifat-tramor" yn y cwestiwn ynghylch addysg cyflogai.

## Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.33 Nid oes un cwestiwn sy'n gallu mynd i wraidd cefndir economaidd-gymdeithasol cyflogai felly byddwn yn gofyn pedwar cwestiwn sydd, gyda'i gilydd, yn creu darlun o gefndir economaidd-gymdeithasol gweithlu darlledwr. Mae'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol ac Ymddiriedolaeth Sutton yn argymell y dull hwn.

4.34 Rydyn ni wedi addasu'r cwestiynau am gefndir economaidd-gymdeithasol i gyd-fynd â'r argymhellion diweddaraf gan y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol.[23] Mae ei argymhellion yn canolbwyntio'n bennaf ar symleiddio cwestiynau i annog pobl i ddatgelu.[24] Ac eithrio cwestiwn 3, nid yw'r newidiadau'n cyfyngu ar ein gallu i feincnodi a chymharu data â blynyddoedd blaenorol.[25]

4.35 O ran cwestiwn 2, rydyn ni wedi gwyro ychydig oddi wrth argymhelliad y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, sef ychwanegu dewis lle nodir bod y bwrsari a gafwyd yn 90% neu fwy.[26] Rydyn ni'n credu y byddai penodoldeb y dewis hwn yn creu baich ychwanegol i ddarlledwyr wrth gywain ac adrodd y data, felly rydyn ni wedi defnyddio iaith fwy cyffredinol i annog pobl i ddatgelu. Yn yr un modd, rydyn ni wedi tynnu'r ddau ddewis ar gyfer ysgolion gwladol (yn dethol a ddim yn dethol) oherwydd nad yw'r dull hwn yn un o brif argymhellion y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol ac rydyn ni'n gobeithio y bydd symleiddio'r cwestiwn yn cynyddu cyfraddau datgelu.[27]

4.36 Nid ydyn ni wedi ychwanegu categori arall at y dewis addysg dramor oherwydd na fyddem wedi gallu meincnodi'r data hwn, ac rydyn ni'n credu na fyddai'r budd o gywain y data yn drech na'r baich ychwanegol ar ddarlledwyr.

4.37 Rydyn ni wedi osgoi ychwanegu rhagor o gwestiynau at yr adran hon oherwydd nid yw'r cyfraddau datgelu ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol yn uchel[28] ac ni fyddai gennym ddata cenedlaethol cadarn, y gellir ei gymharu, ar gyfer y cwestiynau hynny. Yn hytrach, rydyn ni wedi canolbwyntio ar ffyrdd o wella cyfraddau datgelu er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r gynrychiolaeth o bobl o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol ym maes darlledu.

---

[23] Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, adroddiad ar y crynodeb o'r newidiadau o ran mesur
[24] Adroddiad y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, t.5-6.
[25] Mae cwestiwn 3 wedi newid yn sylweddol felly ni fyddwn yn gallu cymharu â data cyn 2023. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn yn fwy syml o lawer bellach ac mae'r newid wedi'i argymell gan y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol
[26] Adroddiad y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, t.17.
[27] Adroddiad y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, t.18.
[28] Yn 2021, 33.5% oedd y gyfradd datgelu gyfartalog ar draws y pedwar cwestiwn

| Y cwestiwn ar hyn o bryd | Cwestiwn newydd |
|---|---|
| Cwestiwn 1 – Gwirfoddol:<br><br>Galwedigaeth prif enillydd yr aelwyd pan roedd y gweithiwr yn 14 oed.<br><br>a) Galwedigaethau proffesiynol modern (fel athro, nyrs, ffisiotherapydd, gweithiwr cymdeithasol, cerddor, swyddog heddlu [sarjant neu uwch], dylunydd meddalwedd).<br><br>b) Galwedigaethau canolradd a chlerigol (fel ysgrifennydd, cynorthwyydd personol, gweithiwr clerigol, asiant canolfan alwadau, nyrs meithrinfa).<br><br>c) Uwch reolwyr neu weinyddwyr – fel arfer yn gyfrifol am gynllunio, trefnu a chydlynu gwaith, a/neu gyllid (fel rheolwr cyllid, prif weithredwr).<br><br>d) Galwedigaethau technegol neu grefft (fel mecanig moduron, plymwr, argraffydd, trydanwr, garddwr, gyrrwr trên).<br><br>e) Galwedigaethau gwaith llaw a gwasanaeth lled-ailadroddus (fel gweithiwr post, gweithredwr peiriant, swyddog diogelwch, gofalwr, gweithiwr fferm, cynorthwyydd arlwyo, cynorthwyydd gwerthu).<br><br>f) Galwedigaethau gwaith llaw a gwasanaeth ailadroddus (fel gyrrwr HGV, porthor glanhawr, paciwr, labrwr, gweinydd, staff bar).<br><br>g) Rheolwyr canol neu iau (fel rheolwr swyddfa, rheolwr cadw, rheolwr banc, rheolwr bwyty, warws). | Cwestiwn 1 – Gwirfoddol:<br><br>Galwedigaeth prif enillydd yr aelwyd pan roedd y gweithiwr yn 14 oed.<br><br>o Galwedigaethau proffesiynol modern a thraddodiadol fel: athro, nyrs, ffisiotherapydd, gweithiwr cymdeithasol, cerddor, swyddog heddlu [sarjant neu uwch], dylunydd meddalwedd, cyfrifydd, cyfreithiwr, ymarferydd meddygol, gwyddonydd, peirianydd sifil / mecanyddol.<br><br>o Uwch reolwyr, rheolwyr canol, is-reolwyr neu weinyddwyr fel: rheolwr cyllid, prif weithredwr, perchennog busnes mawr, rheolwr swyddfa, rheolwr manwerthu, rheolwr banc, rheolwr bwyty neu reolwr warws.<br><br>o Galwedigaethau canolradd a chlerigol fel: ysgrifennydd, cynorthwyydd personol, asiant mewn canolfan alwadau, gweithiwr clerigol, gweithiwr mewn meithrinfa.<br><br>o Galwedigaethau technegol a chrefft fel: mecanig moduron, plymwr, argraffydd, trydanwr, garddwr, gyrrwr trên.<br><br>o Galwedigaethau gwaith llaw a gwasanaeth ailadroddus a lled-ailadroddus fel: gweithiwr post, gweithredwr peiriant, swyddog diogelwch, gofalwr, gweithiwr fferm, cynorthwyydd arlwyo, cynorthwyydd gwerthu, gyrrwr HGV, porthor glanhawr, paciwr, labrwr, gweinydd, staff bar.<br><br>o Di-waith tymor hir (wedi hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-dal diweithdra cynharach am fwy na blwyddyn) |

| | |
|---|---|
| h) Galwedigaethau proffesiynol traddodiadol (fel cyfrifydd, cyfreithiwr, ymarferydd meddygol, gwyddonydd, peiriannydd mecanyddol / sifil).<br><br>i) Di-waith tymor hir (wedi hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-dal diweithdra cynharach am fwy na blwyddyn).<br><br>j) Anweithgar (gan gynnwys y rheini a oedd wedi ymddeol).<br><br>k) Ddim yn gwybod / amherthnasol<br><br>l) Well gan y cyflogai beidio â datgelu<br><br>m) Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom<br><br>n) Data heb ei gywain | ○ Perchnogion busnes bach sy'n cyflogi llai na 25 o bobl fel: perchnogion siopau cornel, cwmnïau plymio bach, perchennog siop manwerthu, perchennog un bwyty neu gaffi, perchennog tacsi, perchennog garej<br><br>○ Arall, fel: wedi ymddeol, dydy'r cwestiwn hwn ddim yn berthnasol i fi, Dydw i ddim yn gwybod<br><br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain<br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom |
| Cwestiwn 2 – Gwirfoddol:<br><br>Pa fath o ysgol y bu'r gweithiwr yn ei mynychu am y rhan fwyaf o'r cyfnod pan roedd rhwng 11 ac 16 oed.<br><br>a) Ysgol wladol neu ysgol sy'n derbyn arian gwladol – yn dethol ar sail academaidd, ffydd neu sail arall<br><br>b) Ysgol wladol neu ysgol sy'n derbyn arian gwladol – ddim yn dethol<br><br>c) Ysgol annibynnol neu ysgol sy'n codi ffi – bwrsari d) Ysgol annibynnol neu ysgol sy'n codi ffi – dim bwrsari<br><br>e) Ysgol y tu allan i'r Deyrnas Unedig<br><br>f) Ddim yn gwybod<br><br>g) Well gan y cyflogai beidio â datgelu<br><br>h) Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom<br><br>i) Data heb ei gywain | Cwestiwn 2 – Gwirfoddol:<br><br>Math o ysgol y bu'r gweithiwr yn ei mynychu am y rhan fwyaf o'r cyfnod pan oedd rhwng 11 ac 16 oed.<br><br>○ Ysgol sy'n cael ei rhedeg neu ei hariannu gan y wladwriaeth<br>○ Ysgol annibynnol neu ysgol sy'n codi ffi<br>○ Ysgol annibynnol neu ysgol sy'n codi ffi lle roedd y cyflogai wedi cael bwrsari i dalu am y rhan fwyaf o'i ffioedd dysgu<br>○ Ysgol y tu allan i'r Deyrnas Unedig<br>○ Arall, fel addysgu gartref<br>○ Cyflogai ddim yn gwybod.<br><br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom<br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain |

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 3 – Gwirfoddol:<br><br>Y cymhwyster lefel uchaf a enillwyd gan y naill riant neu warcheidwad neu'r llall erbyn i'r gweithiwr fod yn 18 oed.<br><br>a) Gradd neu lefel sy'n cyfateb i radd neu uwch (ee gradd gyntaf neu radd uwch, diplomâu ôl-radd, NVQ/SVQ, lefel 4 neu 5 ayb)<br><br>b) Cymwysterau sy'n is na lefel gradd (ee Safon Uwch, SCE Uwch, Lefel O, SCE Safonol / Arferol, NVQ/SVQ, BTEC ayb)<br><br>c) Dim cymwysterau<br><br>d) Ddim yn gwybod<br><br>e) Well gan y cyflogai beidio â datgelu<br><br>f) Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom<br><br>g) Data heb ei gywain | Cwestiwn 3 – Gwirfoddol:<br><br>A oedd naill riant neu llall y cyflogai wedi mynychu prifysgol erbyn i'r gweithiwr fod yn 18 oed?<br><br>○ Nac oedd, nid oedd naill riant na llall y cyflogai wedi mynychu prifysgol<br>○ Oedd, roedd un neu'r ddau o rieni'r cyflogai wedi mynychu prifysgol<br>○ Cyflogai ddim yn gwybod / ddim yn siŵr<br><br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom<br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain |
| Cwestiwn 4 – Gwirfoddol:<br><br>A oedd y gweithiwr yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim unrhyw bryd yn ystod ei flynyddoedd ysgol.<br><br>a) Oedd<br><br>b) Nac oedd<br><br>c) Amherthnasol (wedi gorffen yr ysgol cyn 1980 neu wedi mynd i ysgol dramor)<br><br>d) Well gan y cyflogai beidio â datgelu<br><br>e) Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom<br><br>f) Data heb ei gywain | Cwestiwn 4 – Gwirfoddol:<br><br>Os oedd y cyflogai wedi gorffen yr ysgol ar ôl 1980, a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim unrhyw bryd yn ystod ei flynyddoedd ysgol?<br><br>○ Oedd<br>○ Nac oedd<br>○ Amherthnasol (wedi gorffen yr ysgol cyn 1980 neu wedi mynd i ysgol dramor)<br>○ Cyflogai ddim yn gwybod<br><br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom<br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain |

# Cyfrifoldebau gofalu

> Nid oeddem wedi holi ynghylch cyfrifoldebau gofalu yn y Cais am Fewnbwn, ond fe wnaethom ofyn a oedd unrhyw feysydd eraill y dylem gywain data ar eu cyfer ac roedd hwn yn faes a gafodd ei godi gan rai ymatebwyr.

## Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.38 Awgrymodd pum ymatebydd[29] ein bod yn cynnwys cwestiwn ynghylch cyfrifoldebau gofalu.

## Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.39 Rydyn ni'n cytuno ei bod hi'n bwysig edrych ar y maes hwn oherwydd mae cyfrifoldebau gofalu yn gallu rhoi pobl dan anfantais os nad ydynt yn gweithio mewn amgylchedd cynhwysol a hyblyg.[30]

4.40 Bydd y data byddwn yn ei gywain yn fwy cyfyngedig o ran ei hyd a'i led na fersiwn y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r cwestiwn hwn, gan amlygu a oes gan gyflogeion gyfrifoldebau gofalu ai peidio yn unig, yn hytrach nag i ba raddau y mae'r cyfrifoldebau hyn yn effeithio ar eu bywyd, yn wahanol i'r Swyddfa sy'n cywain gwybodaeth am sawl awr yr wythnos sy'n cael ei threulio yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Rydyn ni'n teimlo y byddai cywain ac adrodd y lefel ychwanegol hon o fanylder yn ormod o faich ar ddarlledwyr, felly rydyn ni wedi symleiddio'r cwestiwn at ein dibenion ni.

| Y cwestiwn ar hyn o bryd | Cwestiwn newydd |
|---|---|
| Amh | Gwirfoddol Ydych chi'n gofalu am unrhyw un, neu'n rhoi help neu gefnogaeth i unrhyw un, oherwydd bod ganddo gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol tymor hir, neu broblemau o ran henaint?<br>○ Cyfrifoldebau gofalu<br>○ Dim cyfrifoldebau gofalu<br>○ Well gan y cyflogai beidio â dweud<br>○ Data heb ei gywain |

[29] gan gynnwys BT Sport, Channel 4, Directors UK a Share My Telly Job
[30] Y llynedd, roedd ymatebion darlledwyr i'r holiadur yn awgrymu bod arferion gweithio newydd a oedd yn deillio o fesurau Covid-19 yn cynnig hyblygrwydd i ofalwyr yn y sector ac mae'r elusen Carers UK wedi nodi bod gweithio'n hyblyg yn gallu helpu gofalwyr i gydbwyso gwaith â chyfrifoldebau gofalu.

# Crefydd neu gred

Nid oeddem wedi holi ynghylch crefydd yn y Cais am Fewnbwn, ond fe wnaethom ofyn a ddylem ddiwygio unrhyw gwestiynau eraill, ac roedd gan rai ymatebwyr sylwadau yn hyn o beth.

## Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.41 Awgrymodd Channel 4 ein bod yn ehangu'r rhestr o ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer cwestiynau am grefydd drwy gynnwys 'Anffyddiwr' 'Agnostig', 'Dyneiddiwr' ac 'Ysbrydol' ar y rhestr.

## Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.42 I'n helpu i gyflawni ein hamcan o nodi tangynrychiolaeth a'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau lleiafrifol, rydyn ni'n credu bod angen inni allu cymharu â data poblogaeth. Felly, nid yw'r adran hon wedi cael ei haddasu (heblaw am newid bach i derminoleg) ac mae'n adlewyrchu dull y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ofyn am grefydd.

4.43 Drwy ymgynghoriad â'n rhwydweithiau cyflogeion ac er mwyn cyd-fynd â'r Swyddfa, rydyn ni wedi penderfynu newid 'ddim yn grefyddol' i 'dim crefydd'.

4.44 Byddwn yn diweddaru'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r holiadur i sicrhau bod darlledwyr yn gwybod lle i roi cyflogeion sydd wedi, er enghraifft, nodi eu bod yn anffyddwyr. Rydyn ni'n gwybod bod hyn wedi bod yn broblem o'r blaen.

| **Y cwestiwn ar hyn o bryd** | **Cwestiwn newydd** |
|---|---|
| Gwirfoddol Beth yw grefydd neu gred eich cyflogeion?<br><br>○ Ddim yn grefyddol<br>○ Cristion<br>○ Hindŵ<br>○ Sikh<br>○ Mwslim<br>○ Bwdhydd<br>○ Iddew<br>○ Cred neu grefydd arall<br>○ Well gan y cyflogai beidio â datgelu<br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddatgelu i Ofcom<br>○ Data heb ei gywain | Gwirfoddol Beth yw grefydd neu gred eich cyflogeion?<br><br>○ Dim crefydd<br>○ Cristion<br>○ Hindŵ<br>○ Sikh<br>○ Mwslim<br>○ Bwdhydd<br>○ Iddew<br>○ Cred neu grefydd arall<br>○ Well gan y cyflogai beidio â datgelu<br>○ Data wedi'i gywain ond dim caniatâd i'w ddatgelu i Ofcom<br>○ Data heb ei gywain |

## Oedran

> Nid oeddem wedi holi ynghylch oedran yn y Cais am Fewnbwn, ond fe wnaethom ofyn a ddylem ddiwygio unrhyw gwestiynau eraill, ac roedd gan rai ymatebwyr sylwadau yn hyn o beth.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.45 Roedd dau ymatebydd[31] wedi gwneud sylwadau ynghylch y maes hwn. Yn benodol, awgrymodd Directors UK fod cwestiynau am oedran yn cael eu symud i'r categori casgliad data gorfodol.

### Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.46 Er bod oedran yn nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, nid yw Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi pŵer i Ofcom fynnu bod data'n cael ei gywain ar y nodwedd hon. Felly, bydd darlledwyr yn dal yn cael dewis llenwi'r adran hon ai peidio.

4.47 Ni fydd y cwestiynau am oedran yn newid.

## Data trawstoriadol

> Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom esbonio ein bwriad i ddechrau cywain data trawstoriadol a gofyn am safbwyntiau ynghylch pa drawstoriadau data sy'n debygol o daflu goleuni ar anfantais sy'n cael ei dwysáu a rhwystrau posibl i gynrychiolaeth lawn.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.48 Roedd 11 ymatebydd[32] o blaid cywain rhywfaint o ddata trawstoriadol newydd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo ei bod hi'n broses angenrheidiol i gael dealltwriaeth fanylach o'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag ymuno â'r diwydiant darlledu a chamu ymlaen ynddo.

4.49 Er ei fod o blaid cywain data trawstoriadol, roedd y BBC yn argymell ein bod yn dechrau'r broses ar raddfa fach gyda nodweddion penodol i osgoi mewnlif "anhylaw" o ddata.

4.50 Dywedodd dau ymatebydd[33] eu bod yn teimlo na ddylai Ofcom ddechrau cywain data trawstoriadol. Roedd BT Sport yn teimlo y byddai'n anoddach i ddarlledwyr llai gywain data trawstoriadol oherwydd materion diogelu data.

---

[31] Pwyllgor Cynghori'r Alban a Directors UK

[32] Pwyllgor Cynghori'r Alban, yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth, y BBC, Channel 4, Directors UK, yr Elusen Ffilm a Theledu, ITV, S4C, Llywodraeth yr Alban, Screen Scotland/Creative Scotland, ac Urdd Awduron Prydain Fawr

[33] BT Sport ac STV

## Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.51 Mae'r cysyniad trawstoriadedd yn cydnabod bod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar hunaniaeth a safleoedd pobl mewn cymdeithas. Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod yn dechrau cywain data manylach sy'n caniatáu i ni ddeall yn well lle mae anfantais neu dangynrychiolaeth yn cael ei dwysáu, ac o bosibl nodi lle mae anfantais yn gysylltiedig â ffactor arall, fel cefndir economaidd-gymdeithasol. Felly, rydyn ni wedi penderfynu dechrau cywain data trawstoriadol.

4.52 Ar hyn o bryd rydyn ni'n cywain data trawstoriadol ar ryw ac oedran. Yn y dyfodol, byddwn yn cywain data ar y trawstoriadau rhwng hil ac ethnigrwydd a rhyw, hil ac ethnigrwydd ac anabledd, hil ac ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol, ac anabledd a chefndir economaidd-gymdeithasol.

4.53 Bydd darlledwyr yn cael dewis cywain y data newydd hwn ai peidio ac rydyn ni'n deall y gallai greu her weinyddol iddynt. Mae eisoes gofyn i ddarlledwyr ofyn i unigolion yn eu sefydliad am y data ar nodweddion unigol sydd dan sylw yn y cwestiynau hynny, ac weithiau mae hynny'n orfodol, felly nid ydyn ni'n credu y bydd hi'n rhy feichus i ddarlledwyr adrodd y data hwn. Yn ôl yr hyn a ddeallwn drwy drafodaethau â darlledwyr, ni fydd adrodd y data trawstoriadol hwn yn creu her sylweddol i nifer o'r darlledwyr mwy.

4.54 Rydyn ni'n credu y bydd y pwyntiau data dan sylw yn caniatáu i ni gael gwell dealltwriaeth o'r gynrychiolaeth o'r grwpiau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o gael eu gwthio i'r cyrion ym maes darlledu.

4.55 O ran darlledwyr llai, rydyn ni'n deall y bydd y niferoedd yn y categorïau hyn yn fach o bosibl, felly i ddiogelu data personol rydyn ni'n debygol o gyfuno'r nodweddion hyn ar draws y diwydiant wrth adrodd.

4.56 Byddwn yn ystyried ehangu nifer y pwyntiau data trawstoriadol rydyn ni'n eu cywain ac yn adrodd arnynt yn y dyfodol, ar ôl inni asesu effeithiolrwydd yr adran newydd hon.

| **Y cwestiwn ar hyn o bryd** | **Cwestiwn newydd** |
|---|---|
| Amh | Cwestiwn 1 – Gwirfoddol:<br>Hil ac ethnigrwydd X cefndir economaidd-gymdeithasol[34]<br>o Du/Dwyrain Asiaidd/Cymysg/Cefndir ethnig arall/De Asiaidd/Gwyn X economaidd-gymdeithasol is<br>o Du/Dwyrain Asiaidd/Cymysg/Cefndir ethnig arall/De Asiaidd/Gwyn X canolradd<br>o Du/Dwyrain Asiaidd/Cymysg/Cefndir ethnig arall/De Asiaidd/Gwyn X proffesiynol |

[34] Yn benodol, data ar alwedigaeth rhieni pan oedd y cyflogai yn 14 oed

| | |
|---|---|
| Amh | Cwestiwn 2 – Gwirfoddol<br><br>Hil ac ethnigrwydd X anabledd<br><br>○ Du X salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br>○ Du X dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br><br>○ Dwyrain Asiaidd X salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br>○ Dwyrain Asiaidd X dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br><br>○ Cefndir ethnig cymysg X salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br>○ Cefndir ethnig cymysg X dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br><br>○ Cefndir ethnig arall X salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br>○ Cefndir ethnig arall X dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br><br>○ De Asiaidd X salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br>○ De Asiaidd X dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br><br>○ Gwyn X salwch, cyflwr neu nam hirdymor<br>○ Gwyn X dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor |
| Amh | Cwestiwn 3 – Gwirfoddol<br><br>Hil ac ethnigrwydd X rhyw<br><br>○ Du X Merch<br>○ Du X Dyn<br><br>○ Dwyrain Asiaidd X Merch<br>○ Dwyrain Asiaidd X Dyn<br><br>○ Cefndir ethnig cymysg X Merch<br>○ Cefndir ethnig cymysg X Dyn<br><br>○ Cefndir ethnig arall X Merch<br>○ Cefndir ethnig arall X Dyn<br><br>○ De Asiaidd X Merch<br>○ De Asiaidd X Dyn<br><br>○ Gwyn X Merch<br>○ Gwyn X Du |
| Amh | Cwestiwn 4 – Gwirfoddol |

| | |
|---|---|
| | Anabledd X cefndir economaidd-gymdeithasol<br>○ Salwch, cyflwr neu nam hirdymor/dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor X economaidd-gymdeithasol is<br>○ Salwch, cyflwr neu nam hirdymor/dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor X canolradd<br>○ Salwch, cyflwr neu nam hirdymor/dim salwch, cyflwr neu nam hirdymor X proffesiynol |

## Data gwledydd a rhanbarthau

> Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ofyn a ddylem ddechrau cywain data amrywiaeth sy'n benodol i'r gwledydd a'r rhanbarthau y mae darlledwyr yn gweithredu ynddynt. Fe wnaethom ofyn am fewnbwn ynghylch sut dylid cywain y data hwn a sut dylem ei feincnodi.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.57 Dywedodd 13 ymatebydd[35] y dylai Ofcom fwrw ymlaen â chywain data amrywiaeth mewn cysylltiad â gwledydd a rhanbarthau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o'r farn hon wedi awgrymu y dylid cywain y wybodaeth hon gan ddefnyddio data lleoliad swyddfa a chod post cartref. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid dim ond casglu tri digid cyntaf codau post i osgoi torri cyfreithiau diogelu data.

4.58 Dywedodd un ymatebydd[36] na ddylem ddechrau cywain data amrywiaeth mewn cysylltiad â gwledydd a rhanbarthau.

### Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.59 Wrth i arferion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad y diwydiant ddatblygu, dylai'r meincnodau rydyn ni'n eu defnyddio i gadw golwg ar gynnydd ddatblygu hefyd. Mae llywodraethau[37] ac ymchwilwyr[38] wedi galw am well dealltwriaeth o ba mor gynrychioladol yw gweithluoedd y darlledwyr mawr ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

4.60 Gall darlledwyr ddefnyddio adroddiadau Ofcom fel adnodd a ffynhonnell data i gael gwell dealltwriaeth o'u cynnydd, ac rydyn ni'n credu bod cael dealltwriaeth gywir o ran a ydyn nhw'n gynrychioladol o'r ardaloedd maen nhw wedi'u lleoli ynddynt ai peidio yn rhan bwysig o hyn.

[35] gan gynnwys Pwyllgor Cynghori'r Alban, y BBC, BT Sport, Channel 4, Directors UK, yr Elusen Ffilm a Theledu, ITV, S4C, Llywodraeth yr Alban, STV, Share My Telly Job, ac Urdd Awduron Prydain Fawr
[36] Aelod o'r cyhoedd
[37] Er enghraifft, edrychwch ar ymateb Llywodraeth yr Alban i gynllun gwaith arfaethedig Ofcom 2022/23
[38] Tudalen 27, Beyond Black to Front, Canolfan Lenny Henry

4.61 Rydyn ni wedi penderfynu gofyn i ddarlledwyr gywain gwybodaeth yn ôl cod post cartref cyflogeion (wedi'u cyfuno yn wledydd/rhanbarthau) yn hytrach na lleoliad swyddfa. Bydd hyn yn golygu bod y broses gywain yn addas ar gyfer y dyfodol oherwydd rydyn ni'n cydnabod bod cyflogeion yn gweithio mewn ffordd fwy a mwy hyblyg, gyda rhai'n gweithio mewn mwy nag un swyddfa ac eraill yn gweithio gartref yn bennaf. Bydd cywain data yn y modd hwn yn dal yn caniatáu i ni asesu a yw gweithluoedd darlledwyr yn gynrychioladol o'r ardaloedd y daw eu staff ohonynt.

4.62 Mae'r cais hwn yn creu gwaith sylweddol i ddarlledwyr. Felly, rydyn ni wedi penderfynu gofyn am wybodaeth yn y modd hwn ar gyfer y tair nodwedd orfodol yn unig – rhyw, hil ac ethnigrwydd, ac anabledd – a'r cwestiwn am gefndir economaidd-gymdeithasol mewn cysylltiad â galwedigaeth rhieni pan oedd y cyflogai'n 14 oed. Ein nod yw ehangu'r broses cywain data i'r holl nodweddion pan fydd darlledwyr wedi cael cyfle i roi prosesau effeithiol ar waith ar gyfer cywain data yn y modd hwn.

4.63 Rydyn ni am sicrhau bod yr economi greadigol yn ffynnu ledled y DU ac yn credu bod angen i ddarlledwyr fanteisio ar dalent amrywiol ym mhob rhanbarth a gwlad i sicrhau hynny. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i nodi lle nad yw gweithluoedd darlledwyr yn gynrychioladol o'r gweithlu sydd ar gael mewn rhanbarth neu wlad benodol, a gallai helpu darlledwyr i asesu sut mae mynd i'r afael â'r prinder sgiliau mewn nhw'n ei wynebu.

4.64 Rydyn ni'n rhag-weld y bydd y data hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i alluogi darlledwyr i osod targedau mwy uchelgeisiol i'w hunain mewn rhai meysydd yn y dyfodol.

| **Y cais ar hyn o bryd** | **Cais newydd** |
|---|---|
| Amh | Gwirfoddol<br><br>Darparwch ddata amrywiaeth y gweithlu ar ryw, hil ac ethnigrwydd, anabledd, a chefndir economaidd-gymdeithasol (galwedigaeth rheini pan oedd y cyflogai'n 14 oed) fesul gwlad a rhanbarth.<br><br>Dylid grwpio cyflogeion fel a ganlyn:<br><br>o Yr Alban<br>o Cymru<br>o Gogledd Iwerddon a<br>o Gogledd-ddwyrain Lloegr<br>o Gogledd-orllewin Lloegr<br>o Swydd Efrog a Humber<br>o Dwyrain Canolbarth Lloegr,<br>o Gorllewin Canolbarth Lloegr,<br>o Dwyrain Lloegr<br>o De-ddwyrain Lloegr<br>o De-orllewin Lloegr<br>o Llundain. |

| | |
|---|---|
| | Byddwn yn gofyn i ddarlledwyr gywain y data yn ôl cod post cyflogeion, yn hytrach na lleoliad eu swyddfa. Gofynnwn i ddarlledwyr gyfuno'r data yn y gwledydd a'r rhanbarthau a nodwyd cyn adrodd i ni. Bydd Ofcom yn darparu rhestr o ba godau post sy'n berthnasol i bob gwlad neu ranbarth. Swyddfeydd y Llywodraeth ar gyfer Rhanbarthau Lloegr sy'n pennu rhaniad y rhanbarthau. |

## Rheoli data

Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom nodi ein bod yn ystyried sut gallem ailwerthuso'r grwpiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer teitlau a lefelau swyddi er mwyn cael rhagor o dryloywder a dealltwriaeth well o statws a dylanwad yn sefydliadau'r darlledwyr.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.65 Awgrymodd pum ymatebydd[39] y gellid newid y ffordd rydyn ni'n gofyn i ddarlledwyr am wybodaeth am brofiad rheoli a dyrchafiadau yn yr holiadur gweithlu. Roedd yr Elusen Ffilm a Theledu ac Urdd Awduron Prydain Fawr yn dadlau bod y categorïau rheoli sy'n cael eu defnyddio yn yr holiadur gweithlu ar hyn o bryd yn rhy eang, ac nad ydynt yn nodi lle mae rolau gwneud penderfyniadau yn bodoli yn niwydiant darlledu'r DU. Awgrymodd ITV ein bod yn defnyddio'r chwarteli bwlch cyflog i safoni'r mesur statws yn ein hadroddiadau, a'r diffiniadau o statws yn y diwydiant darlledu.

4.66 Dywedodd pedwar ymatebydd[40] yna ddylid newid y ffordd rydyn ni'n gofyn am wybodaeth am brofiad rheoli a dyrchafiadau.

### Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.67 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n werthfawr cael gwell dealltwriaeth o amrywiaeth rheolwyr canol yn enwedig, oherwydd mae ymchwil wedi canfod bod rheolwyr canol yn elfen bwysig o gyflawniad ac effaith strategaethau tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad.[41]

4.68 Rydyn ni hefyd wedi darparu diffiniad cliriach o sut dylid categoreiddio cyflogeion. Pwrpas yr adran hon yw deall amrywiaeth ar draws wahanol lefelau statws – mae cyfrifoldebau rheoli pobl yn ddangosydd da o statws fel arfer ond rydyn ni'n cydnabod, ym maes darlledu, bod staff technegol uwch â llawer o ddylanwad ond dim is-weithwyr uniongyrchol yn aml. Dylid neilltuo'r cyflogeion hyn i'r categori perthnasol ar sail eu statws. Dylid cadw'r categori 'Ddim yn rheolwyr' i staff iau. Dylai hyn rhoi gwell darlun inni o ddosbarthiad a chynnydd cyflogeion o grwpiau lleiafrifol.

[39] gan gynnwys yr Elusen Ffilm a Theledu, ITV ac Urdd Awduron Prydain Fawr
[40] gan gynnwys Channel 4, Share My Telly Job ac STV
[41] Fforwm Economaidd y Byd, Why middle managers could be the 'lynchpin' of inclusivity in the workplace.

4.69 Mae syniad ITV o rannu statws yn ôl chwarteli cyflog yn un diddorol; fodd bynnag, rydyn ni'n credu ei bod hi'n werthfawr deall y dadansoddiad o nodweddion yn ôl profiad rheoli yn benodol am y rheswm a nodir uchod.

| Y cais ar hyn o bryd | Cais newydd |
|---|---|
| Gwirfoddol<br>○ Uwch Reolwyr<br>○ Rheolwyr iau / canol<br>○ Ddim yn rheolwyr<br>○ Dim data | Gwirfoddol<br>Ar gyfer pob nodwedd, rhowch eich cyflogeion yn y categori rheoli/statws perthnasol:<br>○ Uwch rheolwr (gan gynnwys uwch dimau arwain, penaethiaid adran, lefel C)<br>○ Rheolwyr canol (ee cyflogeion â phŵer cyflogi a/neu wneud penderfyniadau, a/neu gyfrifoldebau rheoli llinell sylweddol)<br>○ Rheolwyr iau (ee cyflogeion â phŵer cyflogi cyfyngedig a/neu rywfaint o gyfrifoldebau gwneud penderfyniadau, a/neu rywfaint o gyfrifoldebau rheoli llinell)<br>○ Ddim yn rheolwyr (dylai hwn dim ond gynnwys aelodau iau o staff, dylid neilltuo cyflogeion uwch neu ddylanwadol heb gyfrifoldebau rheoli i un o'r categorïau eraill ar sail eu cyfrifoldebau a'u statws.)<br>○ Dim data |

## Grwpiau rolau swyddi

> Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ofyn am safbwyntiau ar sut gallem newid y rhain er mwyn adlewyrchu realiti'r mathau o swyddi a swyddogaethau ym maes darlledu yn well.

### Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

4.70 Awgrymodd pum ymatebydd[42] y dylid newid y grwpiau rolau swyddi rydyn ni'n eu defnyddio yn yr holiadur gweithlu.

[42] gan gynnwys Pwyllgor Cynghori'r Alban, yr Elusen Ffilm a Theledu, ac Urdd Awduron Prydain Fawr

4.71 Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban na all grwpiau rolau swyddi ar eu pen eu hunain gyfleu profiad rheoli a dyrchafiadau yn llawn, gan awgrymu y byddai cwestiynau ychwanegol am yr adran waith a'i maint yn darparu gwell dealltwriaeth. Awgrymodd yr Elusen Ffilm a Theledu ac Urdd Awduron Prydain Fawr nad yw'r grwpiau rolau swyddi cyfredol yn nodi'r swyddi gwneud penderfyniadau a'r porthorion yn strwythur darlledwyr. Roedd yr Elusen Ffilm a Theledu yn awgrymu y dylai Ofcom "nodi'r prif rolau swyddi sy'n dal y pŵer gwneud penderfyniadau yn y diwydiant darlledu, yna edrych ar amrywiaeth deiliaid y swyddi hynny a'r ffyrdd o gael y swyddi hynny". Yn yr un modd, dywedodd Urdd Awduron Prydain Fawr y dylid ehangu'r mathau o rolau swyddi ac y dylid cynnwys cwestiynau yn yr holiadur gweithlu i nodi nifer a phroffil y rhai sy'n dal swyddi gwneud penderfyniadau.

4.72 Roedd pedwar ymatebydd[43] wedi argymell nad oedd angen newid y grwpiau rolau swyddi rydyn ni'n eu defnyddio yn yr holiadur gweithlu.

4.73 Wrth ymgynghori â darlledwyr, codwyd y ffaith nad yw'r grwpiau rolau swyddi cyfredol yn mapio'n rhwydd i'w busnes bob amser. Hefyd, dywedodd darlledwyr y byddai canllawiau ychwanegol ar sut mae defnyddio'r grwpiau yn fuddiol.

## Rhesymeg ychwanegol dros newidiadau

4.74 Rydyn ni wedi ailenwi'r categorïau i roi dealltwriaeth gliriach o ystyr pob grŵp. Fe wnaethom ymgynghori â darlledwyr ynghylch y rhestr newydd i sicrhau bod y grwpiau'n mapio'n fwy effeithiol i strwythur eu sefydliad.

4.75 Hyd yma, rydyn ni wedi bod yn darparu grwpiau swyddi ar wahân ar gyfer radio a theledu. Roedd y grwpiau hyn yn debyg iawn mewn gwirionedd, felly rydyn ni wedi penderfynu defnyddio'r un rhestr ar gyfer y ddau sector a lleihau'r baich gweinyddol. Fe wnaethom roi cyfle i'r darlledwyr radio mwyaf gyflwyno adborth ar y rolau swyddi i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â strwythur eu sefydliad.

4.76 Mae ailddylunio'r categorïau yn mynd rhywfaint o'r ffordd i roi sylw i awgrymiadau'r Elusen Ffilm a Theledu ac Urdd Awduron Prydain Fawr o ran nodi'r rhai â phŵer gwneud penderfyniadau allweddol yn y diwydiant. Rydyn ni'n credu bod y categori 'rolau comisiynu a rhaglennu' yn cynrychioli cryn dipyn o ddylanwad. Bydden ni wedi gallu rhannu'r categorïau ymhellach i gyflawni'r amcan hwn, ond roedden ni'n teimlo y byddai'n ormod o faich i ddarlledwyr ac rydyn ni am eu hannog i ddarparu data yn y maes hwn. Mae'n bosibl na fyddent yn gwneud hynny pe bai'r broses yn rhy feichus.

4.77 Mae Ofcom yn defnyddio'r data hwn i dynnu sylw at achosion o dangynrychiolaeth o grwpiau mewn rhai swyddogaethau swyddi. Rydyn ni'n gwybod bod diffyg amrywiaeth mewn rolau creadigol a chomisiynu yn cael effaith uniongyrchol ar y math o straeon sy'n cael eu darlledu, a'r gynrychiolaeth a'r portreadau o bobl yn y cynnwys sy'n cael ei roi i gynulleidfaoedd, ond rydyn ni hefyd yn deall amrywiaeth ar draws yr holl rolau swyddi.

[43] gan gynnwys Channel 4 ac STV

Mae angen inni ddeall a yw pobl â nodweddion penodol yn dueddol o gael rolau penodol ac yn cael eu tangynrychioli mewn rolau eraill.

| **Hen gais** | **Cais newydd** |
|---|---|
| Gwirfoddol<br>Teledu<br>○ Rheoli - darlledu<br>○ Rôl greadigol a chynnwys<br>○ Rôl newyddiaduraeth<br>○ Rôl talent ar y sgrin<br>○ Rheoli a gweinyddu busnes<br>○ Rôl sefydliadol, dechnegol, beirianyddol a dadansoddi data<br>○ Gwerthu a marchnata | Gwirfoddol<br>Ar gyfer pob nodwedd, rhowch eich cyflogeion yn y swyddogaeth swydd berthnasol:<br>Teledu a Radio<br>○ Rolau comisiynu a rhaglennu (ee golygyddion comisiynu, rheolwyr sianel, rheolwyr rhaglennu)<br>○ Rolau creadigol a chynhyrchu (ee cynhyrchwyr/cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr gweithredol, golygyddion, ymchwilwyr, rheolwyr cynhyrchu, gweithredwyr camera, peirianwyr sain)<br>○ Rolau newyddiaduraeth a newyddion (ee ymchwilwyr newyddiaduraeth, cynhyrchwyr amlgyfrwng newyddion)<br>○ Talent ar y sgrin/ar yr awyr (ee cyflwynwyr, gohebwyr newyddion)<br>○ Rolau technegol a pheirianyddol (ee gweithredwyr trawsyrru, rheolwyr stiwdio, peirianwyr darlledu, dadansoddwyr data)<br>○ Rolau gweithredol a gweinyddol (ee cyfreithiol, cyfrifyddu, adnoddau dynol)<br>○ Rolau masnachol a chyfathrebu (ee gwerthu hysbysebion, marchnata, dosbarthu, datblygu cynnyrch) |
| Radio<br>○ Rôl rhaglenni / rhaglennu<br>○ Rôl newyddiaduraeth a newyddion<br>○ Rôl dechnegol / peirianyddol | |

| | |
|---|---|
| ○ Rôl marchnata / y wasg / cysylltiadau cyhoeddus<br><br>○ Rôl swyddogaethau cymorth / gweinyddol | |

# 5. Sut dylai darlledwyr roi'r newidiadau hyn ar waith

> Isod mae rhywfaint o fanylion am sut byddem yn awgrymu bod darlledwyr yn cywain ac yn adrodd data ar sail y newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud. Byddwn yn darparu canllawiau manylach ar sut mae llenwi'r holiadur pan fydd yr adnodd adrodd ar-lein yn gwbl barod.
>
> O 2023 ymlaen, bydd yr holiadur yn cael ei ddosbarthu ar-lein, gan ei wneud yn fwy ymarferol a symleiddio'r broses cywain data. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am hyn ddiwedd 2022.

## Cywain data cyflogeion

5.1 Rydyn ni'n annog darlledwyr i ganiatáu i gyflogeion ymateb i gwestiynau am eu hunaniaeth gan ddefnyddio blychau testun rhydd i helpu i osgoi'r defnydd o gategorïau 'arall'. Byddwn yn darparu canllawiau newydd i ddefnyddwyr ochr yn ochr â'r holiadur newydd i helpu darlledwyr i ateb y cwestiynau.

## Darparu data cyfyngedig

5.2 Os nad yw darlledwr yn cywain data manwl ar gefndir ethnig, byddant yn gallu cyfuno data a rhoi cyfanswm y cyflogeion sy'n perthyn i'r is-benawdau mewn testun trwm yn y tabl cwestiynau hil ac ethnigrwydd uchod. Rydyn ni'n disgwyl mai dim ond y darlledwyr llai fydd angen defnyddio'r swyddogaeth hon.

5.3 O ran cwestiwn 2 yn y categori anabledd, rydyn ni'n credu bod y cwestiwn cyfredol yn cyd-fynd yn fras â'r dewisiadau newydd. Rydyn ni'n deall na all darlledwyr newid eu dulliau cywain data ar unwaith, felly byddem yn eu hannog i fapio eu data i'r dewisiadau newydd hyn gorau gallant ac addasu eu proses cywain data i adlewyrchu'r dull newydd hwn pan fydd hynny'n bosibl. O ran darlledwyr nad ydynt yn cywain unrhyw wybodaeth am fathau penodol o namau neu gyflyrau, byddwn yn eu galluogi i ddarparu data ar is-benawdau ehangach sy'n adlewyrchu'r ffordd yr oedd Ofcom arfer cywain y data hwn yn well. Bydd darlledwyr yn gallu llenwi'r is-gategorïau mewn testun trwm yn y tabl cwestiynau anabledd uchod. Fodd bynnag, byddem yn annog darlledwyr i newid eu proses cywain data i gywain gwybodaeth am namau a chyflyrau penodol er mwyn iddynt allu cael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu eu cyflogeion o bosibl.

5.4 Mae cywain data ar gefndir economaidd-gymdeithasol yn wirfoddol ac rydyn ni'n gwybod nad yw llawer o ddarlledwyr yn cywain y data hwn. Rydyn ni'n deall bod gwahanol ddarlledwyr ar wahanol gamau yn eu taith tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad, ond rydyn ni'n annog pob darlledwyr yn gryf i gywain data ar gefndir economaidd-gymdeithasol. Mae ymchwil yn dangos mai'r cwestiwn am alwedigaeth rhieni pan oedd y cyflogai'n 14 oed

sydd â'r cyfraddau datgelu uchaf a'i fod yn ddangosydd cadarn o gefndir economaidd-gymdeithasol.[44] Os nad yw darlledwyr yn teimlo eu bod yn gallu gofyn pob cwestiwn eto, rydyn ni'n awgrymu eu bod yn dechrau gyda chwestiwn 1.

5.5 O ran y cais am ddata trawstoriadol, rydyn ni'n cydnabod nad yw pob darlledwr yn cywain data ar gefndir economaidd-gymdeithasol; byddem yn annog y darlledwyr hynny i lenwi unrhyw ran o'r adran hon y mae ganddynt ddata arni.

## Darparu data cyfunol

5.6 Mae Ofcom yn cydnabod y bydd rhai darlledwyr yn dymuno cywain data ar rai nodweddion ar lefel fanylach nag sy'n ofynnol gennym o bosibl. Byddem yn annog darlledwyr i gywain cymaint o ddata ag sy'n ddefnyddiol ac yn briodol yn eu barn nhw. Wrth adrodd i Ofcom, dylai darlledwyr gyfuno eu data yn y categorïau dan sylw.

## Darparu data personol

5.7 Ni fydd gofyn i ddarlledwyr rannu data cod post ag Ofcom wrth ateb y ceisiadau am ddata gwledydd a rhanbarthau; bydd angen iddynt gyfuno eu data yn y gwledydd a'r rhanbarthau y gofynnir amdanynt cyn adrodd.

[44] Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, Simplifying how employers measure socio-economic background: An accompanying report to new guidance, Diweddarwyd 21 Mai 2021